

Gwybodaeth i Aseswyr Anghenion

Argymhellwn fod yr holl fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth yn cysylltu ag un o'n **Ymgynghorwyr Hygyrchedd** (Ebst: anabledd@aber.ac.uk neu Ffôn: 01970 621761) cyn gynted â phosib cyn iddynt ddechrau er mwyn inni allu trafod eu hanghenion â nhw, ac i sicrhau bod pecyn o gymorth addas ar gael iddynt ar ddechrau eu hastudiaethau.

Cymorth a chyfraddau Cynorthwydd Anfeddygol Mewnol (NMH):

Gweler y ddolen gyswllt isod am ein cyfraddau presennol:

[Cyfraddau NMH Prifysgol Aberystwyth](#)

Sylwer nad yw Prifysgol Aberystwyth yn codi TAW o gwbl am y swyddogaethau hyn.

Mae'r holl sesiynau unigol NMH yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd cyfforddus, sy'n addas at anghenion cyfrinachedd, o fewn y Ganolfan Croesawu Myfyrwyr, neu mewn lleoliad agos. Ym mhob ystafell 1:1 ceir cyfrifiaduron rhwydwaith gydag amrywiaeth o feddalwedd technoleg gynorthwyol arnynt.

Clear Links yw'r ail gyflenwr cymorth NMH rydym yn ei argymhell.

Darparwn y rolau cymorth NMH Band 4 isod:

- Mentora Arbenigol (ASD):
- Mentora Arbenigol (Iechyd Meddwl):
- Cymorth Sgiliau Astudio Arbenigol (SpLD ac ASD):
- Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol:
 - Mae Prifysgol Aberystwyth yn ddarparwr cofrestredig ar gyfer Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol DSA. Mae manylion am sut i gael yr hyfforddiant ar gael yn <https://www.aber.ac.uk/cy/is/it-services/attraining/>

Cyfraniadau Cyfrifiaduron DSA:

- NID yw Prifysgol Aberystwyth yn talu'r cyfraniad gan fyfyrwyr am gyfrifiaduron, sef £200. Gall unrhyw fyfyrwr cofrestredig wneud cais i'r Gronfa Caledi Myfyrwyr drwy ddangos eu bod mewn sefyllfa ariannol galed; ystyrir pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

Dysgu ac Addysgu:

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn mynnu y dylai pob darlith gael ei recordio a'i bod ar gael i fyfyrwyr. Mae pob darlithfa/man ddysgu yn cynnwys offer **Panopto ar gyfer recordio darlithoedd**. Mae'r darlithoedd a recordiwyd ar gael i fyfyrwyr drwy system AberDysgu Blackboard.

Darpariaeth TG a Llyfrgelloedd:

- Mae Prifysgol Aberystwyth yn sicrhau bod MS Office 365 ar gael i'w ddefnyddio gan ei holl fyfyrwyr, gan gynnwys:
 - cleient ebost yn y cwmwl gyda Chalendarau a Chysylltiadau ymgorfforedig
 - OneDrive gyda Gwe-apiau Office (Word, Excel, PowerPoint, OneNote)
 - Storfa 50GB ar y Cwmwl ar gyfer negeseuon ebost a dogfennau
 - Microsoft Office, gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, OneNote, Access, Publisher, Outlook, Lync ac Infopath i'w gosod yn rhad ac am ddim ar gyfrifiaduron y myfyrwyr eu hun.
- Mae gliniaduron a recordwyr digidol ar gael i'w benthg gan fyfyrwyr anabl ar fenthyciadau byrdymor drwy'r Llyfrgell. Serch hynny, mae llawer o alw amdannt ac ni ellir gwarantu y bydd offer ar gael.
- Mae meddalwedd Inspiration ar gael ar bob cyfrifiadur agored yn y Brifysgol ac mae hefyd ar gael i'w lawrlwytho am ddim i gyfrifiaduron myfyrwyr drwy lawrlwythiadau meddalwedd y Gwasanaethau Gwybodaeth.
- Y feddalwedd gynorthwyol arall sydd ar gael ar y cyfrifiaduron agored yw TextHelp Read & Write Gold (v10) a JAWS (v14).
- Mae peiriannau llungopïo / sganio amlswyddogaethol ar gael drwy'r llyfrgell a'r prif fannau astudio eraill.
- Mae gan Brifysgol Aberystwyth Drwydded Addysg Uwch y CLA, sy'n golygu y gallwn wneud copiâu hygyrch i ddefnyddwyr â nam ar eu golwg a defnyddwyr anabl eraill, neu ofyn (i ddalwyr hawlfraint) amdannt, os nad oes fersiwn hygyrch addas ar gael i'w brynu.
- Mae modd i fyfyrwyr archebu lleoedd yn y llyfrgell i gael eu neilltuo ar gyfer sesiynau astudio unigol neu mewn grwpiau bychain.
- Mae manau astudio tawel penodedig ym mhob un o'r llyfrgelloedd.
- Gellir estyn y cyfnodau benthg ar lyfrau benthg safonol a benthyciad 3-diwrnod (dim ond i'r myfyriwr wneud cais wrth ddesg Fenthycia'r Gwasanaethau Gwybodaeth).
- Mae manylion llawn y gwasanaethau Hygyrchedd sydd ar gael drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth i'w gweld yn - <https://www.aber.ac.uk/cy/is/help/accessibility/>.

Darpariaeth mewn arholiadau:

- Mae'r costau sy'n gysylltiedig â darparu addasiadau mewn arholiadau (sef darllenwyr, ysgrifenywyr ayyb) ac sydd wedi'u barnu'n rhesymol, yn cael eu talu gan y Brifysgol. Os yw'n bosib ac ymarferol, gellir trafod dulliau eraill o asesu drwy'r Ymgynghorwyr Hygyrchedd yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.

Hyd y cyrsiau:

- TAR/Ymarfer Dysgu - 38 wythnos
- Pob gradd arall – 30 wythnos (fel rheol 2 semester 15 wythnos)

Ymgynefino Cynnar:

- I'r myfyrwyr sydd ag anghenion ASD ac sydd ag angen cymorth ychwanegol i ymgartrefu yn y Brifysgol, estynnir gwahoddiad i ddigwyddiad ymgynefino am ddeuddydd cyn prif ddyddiad cyrraedd y Glasfyrwyr.